

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Strategaeth y Chweched Senedd

Ein gweledigaeth

Ailosod ar ôl COVID er mwyn i bobl fyw bywydau hirach ac iachach, gan wybod sut i gael mynediad at y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cywir, a chael profiadau mwy cadarnhaol mewn system iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gweithio'n fwy effeithiol na chyn y pandemig.



Beth y byddwn yn ei wneud

- Sbarduno newid a dylanwadu ar Lywodraeth Cymru a'r sector iechyd a gofal cymdeithasol
- Gweithredu gyda diben trawsbleidiol cyffredin
- Gosod yr agenda, a chadw'r ffocws ar ein blaenoriaethau allweddol
- Nodi rhwystrau a sut y mae modd mynd i'r afael â'r rhain
- Cynllunio ymlaen llaw, ond cadw hyblygrwydd
- Myfyrio ar gynnydd



Materion trawsbynciol

- Rhoi pobl wrth galon iechyd a gofal Cymdeithasol
- Arloesi er mwyn gwella
- Y gweithlu iechyd a gofal Cymdeithasol
- Anghydraddoldebau ac annhegwch iechyd
- Ailosod ar ôl y pandemig



Sut byddwn yn gweithio

- Meithrin cysylltiadau i hwyluso cydweithredu adeiladol a dylanwad
- Gwrando ar brofiad byw, gan gynnwys mynd ar ymweliadau pan fydd y sefyllfa iechyd y cyhoedd yn caniatáu
- Bod yn effro i'n cyfarfodydd ac yn hyblyg o ran amseroedd ein cyfarfodydd
- Cynnal cyfarfodydd hybrid fel mater o drefn

Ein blaenoriaethau ar gyfer blwyddyn 1

- COVID: y pandemig, ac ailosod ar ôl COVID
- Y gweithlu iechyd a gofal Cymdeithasol
- Effaith yr ôl-groniad amseroedd aros
- Effaith rhyddhau o'r ysbyty ar y llif cleifion
- Iechyd meddwl
- Cynllun y gaeaf ar gyfer iechyd a gofal Cymdeithasol
- Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru



Blaenoriaethau posibl ar gyfer blyneddod 2-5

Iechyd

- Gofal sylfaenol
- Hyrwyddo ffyrdd iach o fyw
- Iechyd menywod
- Gwasanaethau adsefydlu
- Mynediad at wasanaethau ar gyfer cyflyrau cronig hirdymor
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd

Gofal Cymdeithasol

- Integreiddio ac ariannu
- Cefnogaeth a gwasanaethau i ofalwyr di-dâl

COVID-19

- Y pandemig, ac ailosod ar ôl COVID

